Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**CYFARFOD PWYLLGOR GWAITH Y GANGEN**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025

**Amser:** 12:30-13:15

**Lleoliad:** 4B (Ystafell Gynadledda - Tŷ Hywel)

**AGENDA**

1. **CROESO / YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau gan:
- Alun Davies AS
- Rhianon Passmore AS

Nodwyd bod rhai newidiadau wedi bod i Ysgrifenyddiaeth y Gangen ac y byddai rhagor o gymorth yn cael ei ddarparu (ar gyfer rhwydwaith Seneddwragedd y Gymanwlad yn benodol) o fis Medi ymlaen.

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-25-02 (**DOGFEN 1**)

**Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.**

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Dim

4. **Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

- *Ymweliad y Llywydd â Chynulliad Cenedlaethol Québec*
  *22-23 Mai (**DOGFEN 2**)*

  Trafododd y Cadeirydd y berthynas bwysig a oedd wedi datblygu rhwng y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Québec yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn i'w weld yn yr ymgysylltu mynych ac arwyddocaol rhwng ein deddfwrfeydd, gan gynnwys yr ymweliad diweddar hwn gan y Llywydd â Québec, a oedd yn cynnwys llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol. Mae adroddiad ar ymweliad y Llywydd wedi'i rannu gyda'r Aelodau.

- *Cynhadledd BIMR*
  *Caerdydd, Cymru*
  *17-19 Mehefin*

  Un o'r uchafbwyntiau diweddar oedd cynnal Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yma ym mis Mehefin.

  Roedd 10 o Ganghennau'r Rhanbarth yn bresennol yn y Gynhadledd, ac roedd yn bleser gennym groesawu Arsylwyr rhyngwladol o dalaith y Western Cape, Québec a Sark yn ogystal ag Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Stephen Twigg.

  Roedd adroddiad ffurfiol yn cael ei lunio ar y cyd ag Ysgrifenyddiaeth BIMR ond, yn y cyfamser, roedd y Senedd yn falch iawn o fod wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan gynifer o gyfranogwyr – gan gynnwys llythyrau diolch swyddogol oddi wrth Stephen Twigg ac Ysgrifennydd Rhanbarthol BIMR, Sarah Dickson.

  Nododd y Cadeirydd a'r Aelodau a oedd yn bresennol gymaint yr oeddent wedi mwynhau'r gynhadledd, gan ddweud ei bod wedi bod yn achlysur ardderchog i roi llwyfan i Gymru ac i'r Senedd. Nododd yr Aelodau eu diolch i Ysgrifenyddiaeth y Gangen a thîm ehangach Comisiwn y Senedd am sicrhau cynhadledd mor llwyddiannus.

- *Ymweliad gan Lefarydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd*
  *2 Gorffennaf*

  Roedd yn bleser gan y Senedd groesawu Ben Franklin, Llywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd. Roedd rhaglen Ben Franklin yn cynnwys cyfarfodydd â'r Llywydd yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd a'r Cadeirydd, yn ogystal â sawl sesiwn gyda'r timau Ymgysylltu ac Addysg/Senedd Ieuenctid.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

**2025**

- *61ain Cynhadledd Ranbarthol Canada*
  *Dinas Québec*
  *20-23 Gorffennaf*

  Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Dirprwy Lywydd yng Nghynhadledd Rhanbarth Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a oedd ar fin digwydd, dan ofal Cynulliad Cenedlaethol Québec.

  Dyma'r cyfle cyntaf y gwyddys amdano i Gymru gael ei chynrychioli yn un o Gynadleddau Rhanbarth Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Nododd David Rees AS ei fod yn edrych ymlaen at y gynhadledd, a fyddai'n cynnwys cynulleidfa sylweddol o dros 100 o seneddwyr yn cynrychioli pob un o 13 Talaith a Thiriogaeth Canada namyn un, yn ogystal â'r cyfleoedd i rwydweithio a fyddai'n dod yn sgil hynny.

  Byddai adroddiad yn cael ei lunio a'i rannu gyda'r Aelodau, maes o law.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *St Helena*
  *21 Awst – 8 Medi*

  Roedd y Gangen wedi cael gwybod am y cyfle diweddaraf hwn i gymryd rhan mewn Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR. Nodwyd

bod y cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn gymharol fyr, a thynnwyd sylw at yr ymrwymiad amser sylweddol a fyddai'n ofynnol pe bai Aelodau am gymryd rhan yn y Genhadaeth hon.

- *Cyfarfodydd a Digwyddiadau Rhwydwaith LHDT+ BIMR*
  *8 Medi – rhithwir*
  *Hydref/Tachwedd – digwyddiad yn San Steffan (i'w gadarnhau)*

  Yn sgil llwyddiant lansio Rhwydwaith LHDT+ BIMR yn ein Cynhadledd BIMR yn y Senedd, roedd momentwm bellach i adeiladu ar y gwaith hwn gyda nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau. Byddai'r Gangen yn falch o gefnogi unrhyw Aelodau o'r Senedd a fyddai'n dymuno cymryd rhan yn y rhain.

  Nodwyd bod gan BIMR bellach swyddog dynodedig a fyddai'n cefnogi ac yn datblygu gwaith rhwydwaith LHDT BIMR.

- *68ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad / etholiadau Seneddwragedd y Gymanwlad*
  *Barbados*
  *6-13 Hydref*

  Llongyfarchodd y Cadeirydd Natasha Asghar AS a oedd wedi cael ei dewis i fod yn Gynrychiolydd Pleidleisio'r Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Barbados eleni, ac yn gynrychiolydd inni ar y Pwyllgor Gwaith ar gyfer trosglwyddo cynrychiolaeth BIMR o'r Alban i Gymru ar ddiwedd y gynhadledd. Ategwyd y byddai penderfyniad ynghylch pwy fyddai cynrychiolydd parhaol y Senedd ar y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2026-28 yn cael ei wneud ar ôl etholiadau nesaf y Senedd.

  Roedd hysbysiad wedi ei anfon at y Gangen ehangach yn gwahodd ceisiadau gan unrhyw un a oedd am gael ei ystyried ar gyfer lle'r "Arsylwr" ychwanegol, yr oedd y Gangen yn disgwyl y byddai'n cael ei gynnig iddi.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *Ynysoedd Falkland*
  *28 Hydref-12 Tachwedd*

  Roedd Alun Davies AS wedi cael ei ddewis yn Bennaeth y Genhadaeth i arsylwi ar etholiad Ynysoedd Falkland ym mis

Tachwedd.

<u>Ôl-nodyn:</u> Gohiriwyd y Genhadaeth hon wedi hynny tan fis Rhagfyr.

- *"Rôl Seneddau o ran Llywio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol"*
  *Kuala Lumpur, Malaysia*
  *28-30 Tachwedd*

Yn sgil llwyddiant y Gynhadledd ar Ddeallusrwydd Artiffisial y llynedd yn Singapore (yr aeth Lee Waters AS iddi), roedd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi cadarnhau'r gynhadledd eleni, a fyddai'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â'r Undeb Rhyngseneddol a Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, ym Malaysia.

Roedd disgwyl y byddai galw mawr am leoedd yn y gynhadledd ond roedd y Senedd yn ffyddiog y byddai'n sicrhau un lle. Byddai hysbysiad yn cael ei anfon at Aelodau yn yr wythnosau nesaf.

**<u>2026</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r Cynadleddau yr oedd disgwyl y byddai Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cael gwahoddiad i fynd iddynt yn 2026.

- Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR
  Belfast, Gogledd Iwerddon
  Chwefror

- 55ain Cynhadledd BIMR
  Gibraltar
  Dyddiadau i'w cadarnhau

- 69ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad
  Johannesburg, De Affrica
  Dyddiadau i'w cadarnhau

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

7. **DYDDIAD CYFARFOD YN Y DYFODOL:**

Tachwedd (i'w gadarnhau)

**DIWEDD**